



PROSIECT

**DERBYNFA
NEWYDD AUK I
YMWELWYR**

CLEIENT

**AUK OPERATIONS
LIMITED**

GWERTH Y CONTRACT

€0.3M**Y NOD**

Dewiswyd Hollingsworth Ellery i drafod syniadau ynglŷn â sut i droi adeilad yn dderbynfa newydd i ymwelwyr.

Roedd y cyfleuster newydd i gael ei agor o fewn pedair wythnos ar ôl dechrau gweithio gyda HE. Syniadau cychwynol AUK oedd desg dderbynfa syml ac ail addurno'r ystafell.

Ond gyda wythnos wedi pasio'n barod, cynhyrchodd HE syniad wedi'i gynllunio'n llawn i greu canolbwynt amlwg ar y safle. Roedd y cynnig yma wedi'i seilio ar brofiadau a gorffeniadau HE ar brosiectau eraill.

Croesawyd y cynigion gan staf lefel uchaf AUK ar y safle. Gofynnodd AUK i HE gymryd y cyfrifoldeb llawn am y prosiect cynllunio ac adeiladu.



Hollingsworth Group Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y DULL

Roedd tair wythnos ar ôl erbyn hyn cyn agor y cyfleuster, pan fyddai'r Prif Weinidog a Phrif Weithredwr AUK yn ymweld â'r safle i agor y prosiect A350 newydd.

Cafodd y gwasanaethau oedd yno eu tynnu allan i gyd. Dwy ystafell oedd y lle i ddechrau. Cyflwynwyd colofn newydd a chynhaliaeth i'r to a darparwyd y lle agored newydd.

Gweithiodd y prosiect ddwy shift yn ddyddiol ac ar y penwythnosau er mwyn cwblhau o fewn y tair wythnos oedd yn weddill.

Y CANLYNIADAU

Roedd systemau awyru newydd wedi eu cuddio mewn nenfydau nofiol.

Adeiladwyd waliau nodwedd MDF wedi eu chwistrellu yn cynnwys systemau AV.

Prynwyd ac adeiladwyd desg dderbynfa Corian arbenigol gydag adran adenydd nodwedd.

Adeiladwyd ystafelloedd cyfarfod ac ystafell bostio gyflawn.

Roedd cyfraniad adran gyfathrebu AUK yn golygu bod hunaniaeth gorfforaethol wedi'i integreiddio i mewn i'r cynllun

CRYNODEB

Roedd y dderbynfa newydd yn weithredol y diwrnod cyn ymweliad y prif weinidog. Cafwyd seremoni agor swyddogol y cyfleuster yr wythnos ddilynol gan Carl Sargeant, y gweinidog lleol.

Cyhoeddodd Prif Weithredwr AUK mai'r prosiect cyflawn yma fyddai'r safon ar gyfer adnewyddu'r holl fannau derbynfa ar y safle.

